

Y Llyfr gan Geraldine Petherbridge

Es i i Solfach am y penwythnos. Cyrhaeddais i'r bwthyn am chwech o'r gloch ac es i i'r dafarn i swper. Roedd y dafarn yn dawel a siaradais â'r bar-forwyn.

'Ble dych chi'n aros?'

'Bwthyn gwyn.'

'Dych chi'n ddewr!'

'Pam?'

'Roedd llofruddiaeth yno. Hen wraig. Wnaethon nhw ddim ffeindio'r lladdwr.'

Yn y nos roedd hi'n stormus iawn ac roedd y dŵr yn syrthio ar y gwely. Ro'n i'n trio symud y gwely. Roedd yn anodd. Roedd rhywbeth o dan y gwely - dyddiadur. Agorais i'r llyfr a darllenais i'r geiriau: 'Gwnes i e.'